Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf

Cynhaliwyd Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth a'r Plwyf yn Neuadd Yr Ysgol, Llanfihangel-ar-arth, ar Ebrill 14eg 2018 ar ôl gorfod gohirio'r Eisteddfod ym mis Mawrth oherwydd y tywydd gwael. Diwrnod braf a heulog oedd hi a chawsom ddiwrnod o gystadlu o'r safon uchaf trwy'r dydd a nos. Yn y sesiwn cyntaf i blant lleol o oedran ysgol gynradd, enillwyd Cwpan Coffa Freddy Brooker am ganu emyn am yr ail dro gan yr un cystadleuydd, wedi iddo gipio'r wobr hon y llynedd. Mrs Wendy Brooker cyflwynodd y cwpan iddo.

Enillwyd Cwpan er cof am y diweddar Mr a Mrs Hughes, gynt o Brownhill, Llanfihangel-ar-arth, am y perfformiad mwyaf addawol. Cyflwynwyd y cwpan gan Gadeirydd Pwyllgor yr Eisteddfod Mrs Dawn Rees.

Yn y sesiwn agored derbyniodd Lefi Davies o Eglwyswrw Gwpan Western Power am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Eisteddfod am ei berfformiad penigamp ar y piano yn y gystadleuaeth Unawd offerynnol uwchradd. Am y tro cyntaf erioed rhannwyd gwobr Cwpan Maesybwlch am y perfformiad gorau yn y gystadleuaeth Offerynnol Uwchradd rhwng dwy chwaer, Heledd a Mererid Jones o Saron am eu perfformiadau o safon uchel iawn ar y soddgrwth a'r ffidil.

Enillodd Elin Fflur Jones o San Clêr y cwpan er cof am y diweddar Parchedig Noel James am ganu emyn yn yr adran agored, Elin enillodd yr her unawd hefyd gan goroni diwrnod llwyddiannus iawn o gystadlu. Sioned Howells o New Inn enillodd yr her llefaru mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn yn ôl y beirniad Jenifer Clarke.

Coronwyd Aled Evans o Drisant yn y Seremoni Cadeirio wrth iddo ennill ei gadair gyntaf a gafodd ei gwneud yn grefftus iawn gan Euros Morris.

Derbyniodd Elen Davies, Pencader Dlws yr Ifanc am ysgrifennu dau ddarn o lenyddiaeth gyferbyniol a chafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad Mr Geraint Roberts, Cwmffrwd am ei dawn ysgrifennu.

Aeth Gwobr Goffa Gwilym Walters am y darn gorau o Ryddiaith i Mari Phillips, Ysgol Bro Teifi am ei stori fer ar y thema 'Cyfrinach. Cipiodd Darian Teulu Gwenllan am y cais gorau gan rywun a oedd yn dal mewn ysgol gan Elain Roberts hefyd o Ysgol Bro Teifi yn adran blynyddoedd 10 i 13eg.

Enillodd Joanna Creek o Brengwyn y cwpan her am y paragraff gorau gan ddysgwr. Dyma'r ail waith iddi ennill y gystadleuaeth hon. Disgybl o Ysgol Bro Teifi enillodd Gwpan Coffa Heledd Griffiths am y cais celf gorau gan rywun o oedran ysgol gynradd.

Gweler y canlyniadau llawn ar www.steddfota.org neu www.pencader.org.uk.
Unwaith eto bu'r eisteddfod yn llwyddiant mawr wrth brofi y dalent o unigolion lleol yr ardal. Fyddai hyn ddim wedi bod yn bosibl heb waith caled a chefnogaeth nifer mawr o bobl. Dymunai'r pwyllgor estyn eu diolch gwresocaf i'n Llywyddion Mr & Mrs Alun Williams, Deganwy, Dolgran.

Diolch o galon hefyd i'r beirniaid Geraint Roberts, Llenyddiaeth, Jenifer Clarke, Llefaru, Siw Jones, Cerdd a Mair Volk, Celf a Llawysgrifen. Rydym yn hynod o ddiolchgar i Jenifer Clarke a Siw Jones am ddod atom ar fyr rybudd eleni. Diolch o waelod galon hefyd i'n cyfeilydd ffyddlon Lynne James sydd yn gweithio'n ddiwyd trwy'r dydd gyda gwên hyfryd ar ei hwyneb. Diolch yn fawr iawn i'r arweinyddion, y stiwardiaid a'r rhai a ddarparodd y lluniaeth, y cystadleuwyr, pob un a ddaeth i gefnogi ac yn olaf y rhai a gyfrannodd yn ariannol, gan gynnwys Cronfa Les Fferm Wynt Statkraft Alltwalis, Cyngor Sir Gaerfyrddin a Chyngor Cymunedau Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus eto yn 2019 gan obeithio'n fawr bydd y tywydd yn garedig i ni!!.

CANLYNIADAU LLWYFAN - CYFYNGEDIG

Unawd Blwyddyn 1 a 2
1af - Gwenan Owen, Llanllwni
2il - Annie Davies, Croeslan
3ydd - Magw Thomas

Llefaru Blwyddyn 1 a 2
1af - Gwenan Owen, Llanllwni
2il - Annie Davies, Croeslan
Cydradd 3ydd - Magw Thomas a Mari Lois Thomas, Llanllwni

Unawd Meithrin a Derbyn
1af - Hanna Grug Jones, Llanllwni
2il - Bedwyr Rhys Thomas Llandysul

Llefaru Meithrin a Derbyn
1af - Hanna Grug Jones, Llanllwni
2il - Bedwyr Rhys Thomas, Llandysul

Unawd Blwyddyn 3 a 4
1af - Efa Davies, Croeslan
2il - Efa Evans, Llanllwni

Llefaru Blwyddyn 3 a 4
1af - Efa Davies, Croeslan

Unawd Blwyddyn 5 a 6
1af - Peredur Llywelyn, Llandysul
2il - Dafydd Jones, Llandysul
3ydd - Alwena Owen, Llanllwni

Llefaru Blwyddyn 5 a 6
1af - Peredur Llywelyn, Llandysul
2il - Alwena Owen, Llanllwni
Cydradd 3ydd - Mali Macdonald a Dafydd Jones, Llandysul

Canu Emyn a Chwpan er cof am Freddy Brooker
1af - Dafydd Jones, Llandysul
2il - Alwena Owen, Llanllwni
Cydradd 3ydd - Peredur Llywelyn, Llandysul a Gwenan Owen, Llanllwni

Enillydd Cwpan Her er cof am Mr a Mrs Hughes gynt o Brownhill:
Peredur Llywelyn, Llandysul

AGORED:

Cynradd

Unawd Blwyddyn 1 a 2
1af - Gwenan Owen, Llanllwni
2il - Meia Elin, Llanfihangel y Creuddyn
3ydd - Anna Dafydd, Egwyswrw

Llefaru Blwyddyn 1 a 2
1af - Gwenan Owen, Llanllwni
2il - Efan Evans, Talgarreg
3ydd - Meia Elin, Llanfihangel y Creuddyn

Unawd Meithrin a Derbyn
1af - Gwenno Bellamy Jones, Llanarth
2il - Rhun Thomas, Talgarreg

Llefaru Meithrin a Derbyn
1af - Rhun Thomas, Talgarreg
2il - Gwenno Bellamy Jones, Llanarth

Unawd Blwyddyn 3 a 4
1af - Beca Ebenezer, Cellan
2il - Beca Curry, Capel Dewi
3ydd - Fflur McConnell, Aberaeron
4ydd - Gwenan, Caerfelin

Llefaru Blwyddyn 3 a 4
1af - Fflur McConnell, Aberaeron
2il - Beca Ebenezer, Cellan
Cydradd 3ydd - Gwenan Fflur a Beca Curry

Unawd Blwyddyn 5 a 6
1af - Alwena Owen, Llanllwni

Llefaru Blwyddyn 5 a 6
1af - Alwena Owen, Llanllwni
Cydradd 2il - Erin Griffiths, Castell Newydd Emlyn a Gwion Jones, Caerfyrddin

Unawd Offerynnol – Ysgol Gynradd a Gwobr Valerie Davies (£20)
1af - Alwena Owen, Llanllwni
2il - Beca Curry, Capel Dewi
3ydd - Gwion Jones, Caerfyrddin

Alaw Werin – Ysgol Gynradd
1af - Gwenan Owen, Llanllwni
2il - Alwena Owen, Llanllwni
3ydd - Beca Ebanezer, Cellan

Cerdd Dant – Ysgol Gynradd
1af - Flur McConnell, Aberaeron
2il - Gwenan Owen, Llanllwni
Cydradd 3ydd - Gwenan Fflur Jones ac Alwena Owen

Uwchradd

Unawd Blwyddyn 7 – 9
1af – Guto Jenkins, Llanfihangel-ar-arth

Llefaru Blwyddyn 10 – 13
1af - Hanna Medi Davies, Gwyddgrug
2il - Sioned Howells, New Inn
Cydradd 3ydd - Elin Fflur Jones, San Clêr a Sara Elan, Cwman

Unawd Blwyddyn 10 – 13
1af - Sara Elan, Cwmann
2il - Elin Fflur Jones
Cydradd 3ydd – Sioned Howells, New Inn a Hanna Medi Davies, Gwyddgrug
4ydd - Sioned Bowen, Llanfihangel-ar-arth

Unawd Offerynnol Ysgol Uwchradd a Chwpan Teulu Maesybwlch
Cydradd 1af - Heledd Jones a Mererid Jones, Saron
2il - Lefi Davies, Eglwyswrw
3ydd - Sara Elan, Cwman

Alaw Werin – Agored
1af - Elin Fflur Jones, San Clêr
2il - Sioned Howells, New Inn
3ydd - Sara Elan, Cwmann

Unawd Cerdd Dant – Agored
1af - Hanna Medi Davies, Gwyddgrug
2il - Elin Fflur Jones, San Clêr
Cydradd 3ydd - Sioned Howells New Inn a Sara Elan, Cwmann

Parti Canu / Côr – Agored Ian i 20 aelod
1af – Lleisiau Bro Eirwyn
2il – Parti Cffi Llanllwni

Deuawd – Agored
1af – Elin Fflur Jones a Hanna Medi Davies
2il - Sioned a Siriol Howells

Ensemble Lleisiol
1af - Parti Cffi Llanllwni

Cân fodern neu gân allan o sioe gerdd
Cydradd 1af - Elin Fflur Jones a Hanna Medi Davies
Cydradd 2il - Sara Elan, Cwmann a Sioned Howells

Darllen o'r Ysgrythur – Agored
Cydradd 1af – Sioned Howells, Elin Fflur Jones, Sara Elan a Hanna Medi

Canu Emyn – Agored a Chwpan er cof am Noel James
1af - Elin Fflur Jones, San Clêr
2il – Sioned Howells
Cydradd 3ydd - Sioned Bowen a Sara Elan

'Sgen ti dalent?'
1af – Hanna Medi Davies

2il – Elin Fflur Jones
3ydd - Nel
Cydradd 4ydd - Sioned a Siriol, Sara Elan

Her Adrodd
1af - Sioned Howells
Cydradd ail – Elin Fflur Jones, Sara Elan a Linda Evans

Her Unawd
1af - Elin Fflur Jones
2il – Sioned Howells
Cydradd 3ydd – Sandy Stefaneti, Sioned Bowen a Sara Elan

Enillydd Cwpan Western Power am y perfformiad mwyaf addawol yn yr Adran Agored: Lefi, Eglwyswrw

<u>Canlyniadau'r Llenyddiaeth</u>

Telyneg a'r Gadair: Aled Evans, Trisant

Cerdd Rydd: John Meurig Edwards, Aberhonddu

Cerdd Ddigri: Megan Richards

Englyn: Nia Llywelyn, Llandysul

Limrig: Megan Richards, Aberaeron

Erthygl addas i Bapur Bro: Megan Richards, Aberaeron

Stori Fer: Mari Phillips, Castell Newydd Emlyn

Dysgwyr: Joanna Creek

Brawddeg: John Meurig Edwards ac Eilir Jones

Enillydd Cwpan er cof am Gwilym Walters am y darn gorau o Ryddiaith: Mari Phillips, Castell Newydd Emlyn

Llun a Brawddeg - Meithrin a Derbyn
1af - Seren Owen, Ysgol Bro Teifi
2il - Molly Higgins, Ysgol Bro Teifi
3ydd - Jac Thomas, Ysgol Bro Teifi

Stori Blwyddyn 1 a 2
1af - Gwenno Francis, Boncath
2il - Myfi Gale, Ysgol Bro Teifi
3ydd - Bella Radcliffe, Ysgol Bro Teifi

Stori Blwyddyn 3 a 4
1af - Emrys ap Iestyn, Ysgol Bro Teifi
2il - Lily Evans, Ysgol Bro Teifi
3ydd - Anna Evans,Ysgol Bro Teifi

Stori Blwyddyn 5 a 6
1af - Cadi Rees, Ysgol Bro Teifi
2il - Emily Barber, Ysgol Bro Teifi
3ydd - Gwyndaf Jones, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 7 – 9
1af - Sara Jones, Ysgol Bro Teifi
2il - Ifan Thomas, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 10 -13
1af - Elain Roberts, Ysgol Bro Teifi
2il - Sara Jones, Ysgol Bro Teifi
3ydd - Sioned Bowen, Llanfihangel-ar-arth

Tarian Gwenllan am y darn gorau o waith yn Adran y Plant:

Elain Roberts, Ysgol Bro Teifi

Tlws yr Ifanc:

Elen Davies, Pencader

Llawysgrifen

Lan i flwyddyn 2
1af – Cwpan – Gwenllian Dafydd, Ysgol Bro Teifi
2il – Tarian – Gwenno Edwards, Ysgol Bro Teifi
3ydd – Medal – Eliza Keyworth, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 3 & 4
1af - £6 – Lily Erin Evans, Bl 4, Ysgol Bro Teifi
2il - £4 – Alaw Tomos, Ysgol Bro Teifi
3ydd – £2 – Efa Evans, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 5 & 6
1af - £6 – Samual John James Nicholls, Ysgol Bro Teifi
2il - £4 – Geogia Smith, Ysgol Bro Teifi
3ydd - £2 – Ann Jenkins, Ysgol Bro Teifi

Celf

Meithrin a Derbyn
1af – Cwpan – Leah, Meithrin a Derbyn, Ysgol Caerfelin
2il – Tarian – Ella Fflur Richards, Ceri, Ysgol Bro Teifi
3ydd – Medal – Harry Thomas, Derbyn, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 1 & 2
1af – Luke Jones, Bro Teifi
2il – Gwenllian Dafydd, Bro Teifi
3ydd – Deian Thomas, Bro Teifi

Blwyddyn 3 & 4
1af - Katelyn Barber, Bro Teifi
2il - Telor a Tomos., Bro Teifi
Cydradd 3ydd Lowri Crick Thomas, Bro Teifi a Robyn Bristow, Ysgol Bro Teifi

Blwyddyn 5 & 6
1af –Elan Evans Ysgol Llanllwni
2il - Evie Jones, Ysgol Caerfelin
3ydd – Mali Macdonald - 07791567576

Cwpan her er cof am Heledd Griffiths i'r gwaith gorau yn yr Adran Gelf:
Enillydd - Luke Jones Bro Teifi

Carden longyfarch Agored
1af – Erin Macdonald
2il - Erin Macdonald